

MINUTES OF HARLECH COMMUNITY COUNCIL MEETING HELD AT THE OLD LIBRARY, HARLECH AT 7.30 P.M. ON 13.05.24

APOLOGIES

Cllrs. Thomas Mort, Gordon Howie and Gwynfor Owen (Gwynedd Council).

PRESENT

Cllrs. Edwina Evans (Chairman), Christopher Braithwaite (Vice Chairman), Tegid John, Rhian Corps, Ceri Griffiths, Martin Hughes, Giles Bentham, Reg Chapman, Wendy Williams, and Cllr. Annwen Hughes (Gwynedd Council).

There was 6 members of the public present at the start of the meeting and 2 left shortly after the start of the meeting.

Mrs Jane Jones asked to address the Council to bring to their attention the event that is going to take place to unveil the blue plaque in memory of Bryan Hilton-Jones on the 2nd June and asked if the Council would be willing to give a financial donation towards this event.

Ms Annie O'Brien asked if the Members had received her request to speak at the meeting and she stated that she had sent an e-mail outlining what she wanted to discuss with the Members. It was noted that some Members had received the e-mail in question but unfortunately it had gone to the junk folder of other Members. It was agreed that Ms O'Brien send the e-mail again and the matter would be discussed at next month's meeting.

MINUTES

The minutes of the meeting held on April 8th 2024 were found to be correct by the majority of Members, but Cllr. Martin Hughes stated that he did not find the minutes correct and had e-mailed the Members outlining the amendments that should be made to them.

MATTERS ARISING FROM THE MINUTES

Cllr. Martin Hughes stated it should be noted in the minutes that Cllr. Giles Bentham requested a recorded vote with regards to the matters arising from the April minutes which was refused by the Vice-Chair.

Cllr. Martin Hughes stated it should be noted that the Vice Chair should have explained to members of the public why they had to leave the meeting in April.

Cllr. Martin Hughes proposed that the breach of these two Standing Orders will not be repeated.

DECLARATION OF INTEREST

Cllr. Martin Hughes declared a non personal, non prejudicial interest when the financial application for a blue plaque for Major Bryan Hilton-Jones was discussed as he is Treasurer of the Harlech Historical Society and he signed a Personal Declaration of Interest Form.

Cllr. Giles Bentham declared a personal interest when the financial application for a blue plaque for Major Bryan Hilton-Jones was discussed as he has helped with the history of Hilton-Jones and he signed a Personal Declaration of Interest Form.

GWYNEDD COUNCIL MATTERS

The following report was received from Cllr. Annwen Hughes and Cllr. Gwynfor Owen – Cllr. Annwen Hughes reported that since the last meeting that she had been informed that the car charging points were now working in upper Bron y Graig car park. Also she had received an e-mail from Williams Homes the developer of the houses stating that the work of building these houses near Penyrhwylfa estate was starting. She had received an email voicing concern that the owners of motor homes parking on HAL car park overnight were emptying their toilets into the nearby ditch and she had also received pictures showing the difference in the colour of the water in the ditch before the HAL car park and after passing the car park. It was agreed to contact HAL with regards to this matter regarding the motor homes when they park on HAL car park asking what action they are taking with regards to this matter.

She had also been informed that an eye witness saw the owner of a motor home emptying his toilet into the nearby bushes. Following the meeting she had with the Police back in February this year, she was pleased to see that they

were implementing what they had promised by keeping an eye on speeding down Beach Road and also they had arranged for the Traffic Warden to visit the town more often.

MATTERS ARISING

Election of Officers for the year 24/25

Chairman:- Cllr. Christopher Braithwaite was elected unopposed

On leaving the Chair Cllr. Edwina Evans thanked her fellow Councillors for all their support over the last two years although some difficulties had to be faced at times. She also stated that she hoped that the new Chairman would get the support of his fellow Councillors and she also thanked the Clerk for all her work.

Cllr. Martin Hughes conveyed his thanks to Cllr. Edwina Evans.

Cllr. Christopher Braithwaite stated as the new Chairman that he hoped he would be getting the support of his fellow Councillors.

Two names were proposed and seconded for the post of Vice Chairman, namely Cllr. Tegid John and Cllr. Giles Bentham.

Cllrs. Christopher Braithwaite, Edwina Evans, Tegid John, Rhian Corps, Ceri Griffiths and Wendy Williams voted for Cllr. Tegid John.

Cllrs. Martin Hughes and Giles Bentham voted for Cllr. Giles Bentham.

Cllr. Reg Chapman abstained from voting.

Cllr. Tegid John was elected as Vice Chairman

Members of Sub Committees: –

Cemetery – gather any 6 Councillors together

Footpaths - Cllr. Rhian Corps and any 5 other Councillors

Memorial Hall – Cllrs. Edwina Evans and Ceri Griffiths

Playing Fields – Cllrs. Christopher Braithwaite, Tegid John, Rhian Corps and Reg Chapman

Old Library – Cllrs. Edwina Evans and Martin Hughes

One Voice Wales – Cllrs. Christopher Braithwaite and Martin Hughes

Public Benches – Cllrs. Wendy Williams and Rhian Corps

Allotments– Cllrs. Giles Bentham and Reg Chapman

Bron y Graig Nature Trail – Cllrs. Christopher Braithwaite, Tegid John, Rhian Corps, Martin Hughes.

Harlech & Ardudwy Leisure– Cllrs. Giles Bentham and Martin Hughes

Tan y Castell School Governor – Cllr. Wendy Williams

It was agreed to set up the following sub-committees:-

Staffing – Cllrs. Christopher Braithwaite, Tegid John, Ceri Griffiths and Rhian Corps

Finance – Cllrs. Christopher Braithwaite, Tegid John, Reg Chapman and Martin Hughes

Council's Annual Report

The Clerk reported that the Council has to publish an Annual Report for the financial year which has been so because of this she had sent a copy of the Report that she has prepared for the Council to all Members for comment if necessary. It was agreed to include that Audit Wales had published a report which was in the Public Interest with regards to the scam and also budget needed to be changed to precept under the budget heading and the income and expenditure should read 2023/24 and not 2022/23. It was agreed to forward the annual report with the amendments to the Members and asking them to response back in 5 working days before it is published on the Council's website.

It was also stated by the Chairman that any comments the Members have regarding the minutes should be received within 14 working days from the date of the meeting.

Concern was voiced regarding the website and the Chairman agreed to speak with Mrs Kim Howie.

Budget Plan

It was reported that the Council had spent £3,765.76 (which included bank charges) since the start of the new financial year and this was £10,966.49 less expenditure than what was earmarked in the budget for the year.

Review Council's Budget

It was agreed that the finance sub-committee would meet before the next Council meeting and report back at the next meeting with regards to the Council's budget.

Council's Financial Regulations

It was agreed that in section 4.5 the limit for the budgetary provision for the expenditure should be changed from £500, to £2,000 and add "with the agreement of the Chairman and Vice Chairman".

Christmas Lights

The Chairman reported that he had received a list of all the expenditure with regards to the above from Mr. Geraint Williams and it was agreed that the Clerk would forward this to all Members and the matter would be discussed again at next month's meeting.

Election of Councillor

The Clerk reported that she had received a notice of Election from the Electoral Officer and that the notice had commenced since the 8th of this month and was ending on the 16th. If more than one name would be received by him an election will be held on the 13th of June.

Harlech Council Investigation Quotations

Cllr. Martin Hughes reported that he had received 3 quotes from One Voice Wales to carry out the investigation ranging from £945 to £11,000 and he also stated that the remit had been prepared by One Voice Wales and sent out to the three investigators. The Chairman voiced concern that Cllr. Martin Hughes had been able to make contact with One Voice Wales without the permission of the Chairman and that the Council was ready to spend public money on the matter to investigate the fraud. The Chairman also stated that he had no confidence in the quotations received due to the process in which they had been obtained following a conversation with One Voice Wales earlier today where they stated that they can only discuss topics with prior arrangements from the Chairman or the Clerk. A vote was taken to receive the lowest quote and everybody agreed to this.

Public Toilets by the Castle Lease

The Clerk reported following last month's meeting that he had sent copies of the above to all Members so they could have a look at it before the Council contact Gwynedd Council back. It was agreed to reply stating that the Council was not happy with the Lease and to ask if it would be possible a more simpler document and less years on the Lease.

Cyfeillion Ellis Wynne Meeting – 3.5.24

Cllr. Martin Hughes reported that himself and Cllr. Giles Bentham had attended the above meeting on behalf of the Council. It was also reported that minutes of that meeting had been received by everybody. Both Councillors stated that a letter by Cyngor Gwynedd to Cyfeillion Ellis Wynne, dated 7/7/2010, which included a list of the obligations of Cyngor Tref Harlech need to undertake as lease holders, which have not been done, thus far, by the town council' was going to be sent to them by Sian Llewelyn but as yet nothing had been received. It was decided to leave the matter until such letter had been received and to place the matter on next month's agenda.

PLANNING APPLICATIONS

Vary Condition No.2 (approved plans) attached to Planning Consent NP5/61/657A dated 01/08/2023 for changes to parking bay - Aelfor, Ffordd Isaf, Harlech (NP5/61/657E)

TREASURER'S REPORT

The Treasurer reported that there was £5,367.08 in the current account and £72,481.11 in the reserve account.

Invoices needing payment since last meeting

Mrs Kim Howie - £25.99 – monthly payment for administration of Council website
Mr. M. J. Kerr - £580.00 - opening grave re the late Mr. Robert John Shaw
Mr. Lee Warwick - £298.00 - cleaning toilets by memorial hall March and April
Mr. G. J. Williams - £156.00 - cut grass King George playing field and football field.
Clear Insurance Management Ltd - £2,082.04 – Council's insurance

Applications for financial contributions

Harlech & Ardudwy Leisure - £1,824.75 – precept proposal (monthly payment).

The above payments were processed by the Chairman, Cllr. Christopher Braithwaite and Cllr. Edwina Evans approved the payments and permission was granted to the Clerk/Treasurer to make payment on line or by cheque at the end of the meeting.

Monies received since last meeting

Ms Melissa Morgan - £40.00 – allotment rent nos. 17 a 18
Mr. Lee Warwick - £60.00 - allotment rent nos. 13 a 14
H. O. Davies - £1,908.00 - burial of the late Mr. Robert John Shaw
Mr. Dafi Owen - £150.00 - allotment rent nos. 1, 2 a 3
Gwynedd Council - £35,000.00 – half the precept
Customs & Excise - £175.04 – reimbursement of V.A.T
Gwynedd Council - £6,921.79 - reimbursement car parks income

CORRESPONDANCE

Gwynedd Council – Environment Department

Received a reply from the above Department informing the Council that the Class III Road known as Ffordd Uchaf, Harlech from a point by its junction with Bron y Graig travelling north westerly up to a point by the entrance road to Harlech Library will be closed on the 25th June. The closure is necessary on health and safety grounds to the public during excavation works on behalf of Scottish Power. The Clerk reported that she had already forwarded this e-mail to the Members.

Gwynedd Council – Economic Department

Received an e-mail from the above informing the Council that a meeting of Ardal Ni Bro Ardudwy will be held on the 16th of this month at Harlech & Ardudwy Leisure at 5.30 p.m. The Clerk reported that she had already forwarded this e-mail to the Members and she had also forwarded the names of Members that was going to attend the meeting to Anna Lewis.

One Voice Wales

Received an e-mail from the above informing the Council that free training was been held and there was room for two Councillors to attend it. Also received a list of training dates for May and June. It was agreed to forward this e-mail to all Members.

SARPA

Received a letter from the above asking the Council to contact Wales Transportation regarding the proposed cuts to the service on the Cambrian line they are proposing to do by cutting out the service of 4 trains between December and March. The Clerk reported that she had already forwarded this e-mail to the Members. Cllr. Edwina Evans thanked the Clerk for sending such a good e-mail on behalf of the Community Council to Transport for Wales objecting to this proposal.

Wales Air Ambulance

Received a letter from the Chief Executive of the above regarding the review of the EMRTS service which was held independently come to an end. The Clerk reported that she had already forwarded this e-mail to the Members.

Snowdonia National Park

Received a letter from the above about becoming a Member of the Park’s Authority and stating that there is currently a vacancy for a Welsh Government appointed Member for the Authority. The recruitment process for this role will commence on the 16th of this month and full details of the vacancy and application process can be found on the Welsh Government website from 9 a.m. on this day. The Welsh Government have asked for this vacancy to be promoted locally and if anyone has further interest for them to contact the Authority’s office.

Mrs Pamela Ainsworth

Received a letter from above asking the Council to make sure the speed limit of the traffic stays at 20 m.p.a through the town.

Mrs Anna Cole

Received an email from the above voicing disappointment that when visiting the town recently that they had received a parking ticket at Min y Don car park despite the ticket they had purchased was within the time limit and had not gone over and stating it would be good to get the Council’s feedback on this. It was stated by Members that they thought that the pay and display machine in question accepted credit cards but they would check if this was correct and advice Mrs Cole to take the matter up with Gwynedd Council.

Mrs Jane Jones

The request received by the above at the beginning of the meeting was discussed and it was decided to give a contribution up to £300 if the principal meets the financial regulations.

ANY OTHER MATTER

The Chairman stated that he hoped every Member would keep to the Code of Conduct.

It was agreed to put the matter of public benches on next month’s agenda.

It was made known that there was a meeting of the public art scheme on Wednesday 15th

Cllr. Reg Chapman made it known that he was in the process of drawing up a list of items to place on next month’s agenda.

SIGNED.....Chairman

DATE..... 788.

COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL,

HARLECH AM 7.30 O’R GLOCH 13.05.24

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Thomas Mort, Gordon Howie a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

PRESENNOL

Cyng. Edwina Evans (Cadeirydd), Christopher Braithwaite (Is-Gadeirydd), Tegid John, Rhian Corps, Ceri Griffiths,

Martin Hughes, Giles Bentham, Reg Chapman, Wendy Williams, a’r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

‘Roedd 6 aelod o’r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod ond fe adawodd dau yn fuan ar ol cychwyn y cyfarfod.

Gofynnodd Mrs Jane Jones i annerch y Cyngor i dynnu eu sylw at y digwyddiad a fydd yn cael ei gynnal i ddadorchuddio'r plac glas er cof am Bryan Hilton-Jones ar yr 2il o Fehefin a gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn fodlon rhoi rhodd ariannol tuag at y digwyddiad hwn.

Gofynnodd Ms Annie O'Brien a oedd yr Aelodau wedi derbyn ei chais i siarad yn y cyfarfod a dywedodd ei bod wedi anfon e-bost yn amlinellu'r hyn yr oedd hi am ei drafod gyda'r Aelodau. Nodwyd bod rhai Aelodau wedi derbyn yr e-bost dan sylw ond yn anffodus roedd wedi mynd i ffolder sothach Aelodau eraill. Cytunwyd bod Ms O'Brien yn anfon yr e-bost eto a byddai'r mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod fis nesaf.

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 8ed 2024 fel rhai cywir gan y mwyafrif o Aelodau, ond dywedodd y Cyng. Martin Hughes nad oedd yn dod o hyd i'r cofnodion yn gywir a'i fod wedi anfon e-bost at yr Aelodau yn amlinellu'r gwelliannau y dylid eu gwneud iddynt.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Dywedodd y Cyng. Martin Hughes y dylid nodi yn y cofnodion bod y Cyng. Giles Bentham wedi gofyn am bleidlais wedi'i recordio o ran y materion a oedd yn codi o gofnodion mis Ebrill ond bod hyn wedi cael ei wrthodwyd gan yr Is-gadeirydd.

Dywedodd y Cyng. Martin Hughes y dylid nodi y dylai'r Is-gadeirydd fod wedi egluro wrth aelodau'r cyhoedd pam y bu'n rhaid iddynt adael y cyfarfod ym mis Ebrill.

Cynigiodd y Cyng. Martin Hughes na fydd torri'r ddau Reol Sefydlog hyn yn cael ei ailadrodd.

DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cyng. Martin Hughes fuddiant anbersonol, anfeirniadol pan drafodwyd y cais ariannol am blac glas ar gyfer Bryan Hilton-Jones gan ei fod yn Drysorydd Cymdeithas Hanes Harlech a llofnododd Ffurflen Datganiad Buddiant Personol.

Datganodd y Cyng. Giles Bentham fuddiant personol pan drafodwyd y cais ariannol am blac glas ar gyfer Bryan Hilton-Jones gan ei fod wedi helpu gyda hanes Hilton-Jones a llofnododd Ffurflen Datganiad Buddiant Personol.

MATERION CYNGOR GWYNEDD

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael gwybod bod y pwyntiau gwefru ceir yn maes parcio Bron y Graig uchaf nawr yn gweithio. Hefyd 'roedd wedi derbyn e-bost gan Williams Homes datblygwyr y tai yn datgan bod y gwaith o adeiladu y tai ger ystad Penyrhwylfa yn cychwyn. 'Roedd wedi derbyn e-bost yn datgan pryder bod perchnogion "motor homes" sydd yn parcio ar faes parcio HAL dros nos yn gwagio eu toiledau i'r ffos gerllaw ag hefyd 'roedd wedi derbyn lluniau yn dangos y gwahaniaeth yn lliw dwr y ffos cyn ag ar ol pasio y maes parcio. Hefyd wedi cael gwybod bod llygaid dyst wedi gweld perchennog "motor home" yn gwagio ei doiled i wrychoedd gerllaw. Cytunwyd i gysylltu â HAL ynglŷn â'r mater hwn ynglŷn â'r cartrefi modur pan fyddant yn parcio ar faes parcio HAL yn gofyn pa gamau y maent yn eu cymryd o ran y mater hwn.

Yn dilyn y cyfarfod yr oedd wedi ei gael gyda'r Heddlu yn mis Chwefror eleni, 'roedd yn falch o weld eu bod yn gweithredu yr hyn yr oeddynt wedi ei addo trwy gadw llygaid ar or-yrru lawr Ffordd y Traeth ag hefyd eu bod wedi trefnu i'r Warden Traffic ymweld ar dref yn fwy aml.

MATERION YN CODI

Ethol Swyddogion am y flwyddyn 24/25:-

Cadeirydd:- Cyng. Christopher Braithwaite wedi cael ei ethol yn ddiwrthwynebiad

Wrth adael y Gadair diolchodd y Cyng. Edwina Evans i'w chyd Gynghorwyr am eu holl gefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf er bod yn rhaid wynebu rhai anawsterau ar adegau. Dywedodd hefyd ei bod yn

gobeithio y byddai'r Cadeirydd newydd yn cael cefnogaeth ei gyd Gynghorwyr a diolchodd hefyd i'r Clerc am ei holl waith.

Cyfleodd y Cyng. Martin Hughes ei ddiolch i'r Cyng. Edwina Evans.

Dywedodd y Cyng. Christopher Braithwaite fel y Cadeirydd newydd y byddai'n gobeithio cael cefnogaeth ei gyd-Gynghorwyr.

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw ar gyfer swydd Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Tegid John a'r Cyng. Giles Bentham.

Pleidleisiodd y Cyng. Christopher Braithwaite, Edwina Evans, Tegid John, Rhian Corps, Ceri Griffiths a Wendy Williams dros y Cyng. Tegid John.

Pleidleisiodd y Cyng. Martin Hughes a Giles Bentham dros y Cyng. Giles Bentham.

Atalodd y Cyng. Reg Chapman rhag pleidleisio.

Etholwyd y Cyng. Tegid John yn Is-Gadeirydd

Aelodau Is-Bwyllgorau:-

Fynwent – casglu unrhyw 6 Cynghorydd ynghyd

Llwybrau - Cyng. Rhian Corps a unrhyw 5 Gynghorydd arall

Neuadd Goffa – Cyng. Edwina Evans a Ceri Griffiths

Cae Chwarae – Cyng. Christopher Braithwaite, Tegid John, Rhian Corps a Reg Chapman

Hen Lyfrgell – Cyng. Edwina Evans a Martin Hughes

Un Llais Cymru – Cyng. Christopher Braithwaite a Martin Hughes

Seddi Cyhoeddus – Cyng. Wendy Williams a Rhian Corps.

Rhandiroedd – Cyng. Giles Bentham a Reg Chapman

Llwybr Natur Bron y Graig – Cyng. Christopher Braithwaite, Tegid John, Rhian Corps a Martin Hughes

Hamdden Harlech ac Ardudwy – Cyng. Giles Bentham a Martin Hughes

Llywodraethwyr Ysgol Tan y Castell – Cyng. Wendy Williams

Cytunwyd sefydlu'r is-bwyllgorau canlynol:-

Staffio – Y Cyng. Christopher Braithwaite, Tegid John, Ceri Griffiths a Rhian Corps

Cyllid – Y Cyng. Christopher Braithwaite, Tegid John, Reg Chapman a Martin Hughes

Adroddiad Blynyddol y Cyngor

Adroddodd y Clerc ei bod hi yn ofynol bellach bod y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol sydd wedi bod ag felly l'r perwyl hyn mae hi wedi anfon copi o'r Adroddiad 'roedd wedi ei baratoi ar gyfer y Cyngor i bob Aelod er mwyn iddynt gael rhoi sylwadau arni os bydd angen. Cytunwyd i gynnwys bod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad a oedd er budd y cyhoedd o ran y sgam a bod angen newid y gyllideb hefyd i precept o dan bennawd y gyllideb a dylai'r incwm a'r gwariant ddarllen 2023/24 ac nid 2022/23. Cytunwyd anfon yr adroddiad blynyddol ymlaen gyda'r gwelliannau i'r Aelodau a gofyn iddynt ymateb yn ôl mewn 5 diwrnod gwaith cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Dywedwyd hefyd gan y Cadeirydd y dylid derbyn unrhyw sylwadau sydd gan yr Aelodau ynghylch y cofnodion o fewn 14 diwrnod gwaith o ddyddiad y cyfarfod.

Mynegwyd pryder ynghylch y wefan a chytunodd y Cadeirydd i siarad â Mrs Kim Howie.

Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £3,765.76 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £10,966.49 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

Adolygu Cyllideb y Cyngor

Cytunwyd y byddai'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod cyn cyfarfod nesaf y Cyngor ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf o ran cyllideb y Cyngor.

Rheolau Ariannol y Cyngor

Cytunwyd yn adran 4.5 y dylid newid y terfyn ar gyfer y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y gwariant o £500 i £2,000 ac ychwanegu "gyda chytundeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd".

Goleuadau Nadolig

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn rhestr o'r holl wariant o ran yr uchod gan Mr. Geraint Williams a chytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon hyn ymlaen at yr holl Aelodau ac y byddai'r mater yn cael ei drafod eto yn y cyfarfod mis nesa.

Ethol Cynghorydd

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn rhybudd ynglyn ag Etholiad gan y Swyddog Etholiadol a bod y rhybudd wedi cychwyn ers yr 8ed o'r mis hwn ag yn dod i ben ar 16eg. Os bydd mwy na un enw wedi ei dderbyn ganddo bydd etholiad yn cael ei chynnal ar y 13eg o Fehefin.

Dyfyniadau Ymchwiliad y Cyngor

Dywedodd y Cyng. Martin Hughes ei fod wedi derbyn 3 dyfynbris gan Un Llais Cymru i gynnal yr ymchwiliad yn amrywio o £945 i £11,000 a dywedodd hefyd fod y cylch gwaith wedi'i baratoi gan Un Llais Cymru a'i anfon at y tri ymchwilydd. Mynegodd y Cadeirydd bryder bod y Cyng. Martin Hughes wedi gallu cysylltu ag Un Llais Cymru heb ganiatâd y Cadeirydd a bod y Cyngor yn barod i wario arian cyhoeddus ar y mater i ymchwilio i'r twyll. Dywedodd y Cadeirydd hefyd nad oedd ganddo hyder yn y dyfyniadau a dderbyniwyd oherwydd y broses y cafwyd hwy yn dilyn sgwrs gydag Un Llais Cymru yn gynharach heddiw lle dywedon nhw mai dim ond pynciau gyda threfniadau blaenorol gan y Cadeirydd neu'r Clerc. Cymerwyd pleidlais i dderbyn y dyfynbris isaf a chytunodd pawb i hyn.

Prydles Toiledau Cyhoeddus ger y Castell

Adroddodd y Clerc yn dilyn cyfarfod mis diwethaf 'roedd wedi anfon copiau o'r uchod i bob Aelod er mwyn iddynt gael golwg arno cyn bod y Cyngor yn cysylltu yn nol gyda Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i ateb gan ddweud nad oedd y Cyngor yn hapus gyda'r brydles a gofyn a fyddai'n bosibl cael dogfen fwy symlach a llai o flynyddoedd ar y brydles.

Cyfarfod gyda Cyfeillion Ellis Wynne – 3.5.24

Dywedodd y Cyng. Martin Hughes ei fod ef a'r Cyng. Giles Bentham wedi mynychu'r cyfarfod uchod ar ran y Cyngor. Adroddwyd hefyd fod cofnodion o'r cyfarfod hwnnw wedi eu derbyn gan bawb. Dywedodd y ddau Gynghorydd fod llythyr gan Gyngor Gwynedd at Cyfeillion Ellis Wynne, dyddiedig 7/7/2010, oedd yn cynnwys rhestr o rwymedigaethau Cyngor Tref Harlech angen eu cyflawni fel deiliaid prydles, sydd heb eu gwneud, hyd yma, gan y cyngor tref' yn mynd i gael ei anfon atynt gan Sian Llewelyn ond hyd yn hyn ni chafwyd dim. Penderfynwyd gadael y mater nes bod llythyr o'r fath wedi'i dderbyn a rhoi'r mater ar agenda'r mis nesa.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Diwygio Amod Rhif 2 (cynlluniau wedi eu cymeradwyo) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/61/657A dyddiedig 01/08/2023 ar gyfer newidiadau i bae parcio - Aelfor, Ffordd Isaf, Harlech (NP5/61/657E)
Cefnogi y cais hwn.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £5,367.08 yn y cyfrif rhedegol a £72,481.11 yn y cyfrif cadw.

Taliadau yn ystod y mis

Mrs Kim Howie	- £25.99 - taliad misol am gynnal gwefan y Cyngor
Mr. M. J. Kerr	- £580.00 - agor bedd y diweddar Mr. Robert John Shaw
Mr. Lee Warwick	- £298.00 - glanhau toiledau ger y neuadd goffa mis Mawrth ag Ebrill
Mr. G. J. Williams	- £156.00 - torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed
Clear Insurance Management Ltd	- £2,082.04 – insiwrans y Cyngor

Ceisiadau am gymorth ariannol

Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,824.75 – cynnig precept (taliad misol)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cadeirydd, y Cyng. Christopher Braithwaite a wnaeth y Cyng. Edwina Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Derbyniadau yn ystod y mis

Ms Melissa Morgan	- £40.00 – rhent rhandir rhif 17 a 18
Mr. Lee Warwick	- £60.00 - rhent rhandir rhif 13 a 14
H. O. Davies	- £1,908.00 - claddu y diweddar Mr. Robert John Shaw
Mr. Dafi Owen	- £150.00 - rhent rhandir rhif 1, 2 a 3
Cyngor Gwynedd	- £35,000.00 – hanner y precept
Cyllid a Thollad	- £175.04– ad-daliad T.A.W.
Cyngor Gwynedd	- £6,921.79 - ad-daliad incwm meusydd parcio

GOHEBIAETH

Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bod y Ffordd Dosbarth III a adwaenir fel Ffordd Uchaf, Harlech o bwynt ger ei gyffordd gyda Bron y Graig gan deithio mewn cyfeiriad gogledd orllewinol hyd at bwynt ger ffordd fynedfa Llyfrgell Harlech ar gau ar y 25ain o Fehefin. Mae angen y gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith cloddio ar ran Scottish Power. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

Cyngor Gwynedd – Adran Economi

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod o Ardal Ni Bro Ardudwy yn cael ei gynnal ar yr 16eg o'r mis hwn yn Hamdden Harlech ac Ardudwy am 5.30 o'r gloch. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod ag wedi anfon enwau y rhai oedd yn mynd i fynychu y cyfarfod ymlaen i Anna Lewis.

Un Llais Cymru

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod hyfforddiant am ddim yn cael ei gynnal a bod lle i ddau Gynghorydd fynd arno. Hefyd wedi derbyn rhestr dyddiadau hyfforddiant mis Mai a Mehefin. Cytunwyd i anfon y rhestr hwn ymlaen i bob Aelod.

SARPA

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn i'r Cyngor gysylltu hefo Trafnidiaeth Cymru ynglyn ar toriadau arfaethedig i wasanaethau ar lein y Cambrian maen't yn ei fwriadau ei wneud trwy dorri allan gwasanaeth 4 tren rhwng Rhagfyr a Mawrth. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Diolchodd y Cyng.

Edwina Evans i'r Clerc am anfon e-bost mor dda ar ran y Cyngor Cymuned at Trafnidiaeth Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig hwn.

Ambiwlans Awyr Cymru

Wedi derbyn llythyr gan Brif Weithredwr yr uchod ynglyn ag adolygiad o'r gwasanaeth EMRTS a gynhaliwyd yn annibynnol ddod i ben. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn a dod yn Aelod o Awdurdod y Parc ag yn datgan bod swydd wag yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer Aelod o'r Awdurdod a benodir gan Llywodraeth Cymru. Bydd y broses recriwtio ar gyfer y rol hon yn dechrau ar y 16eg o'r mis hwn a bydd manylion llawn y rol gan gynnwys y broses o gyflwyno cais ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru o 9.00 o gloch y bore hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r cyfle hyn gael ei hyrwyddo yn lleol ag os bydd gan unrhywun ddiddordeb iddynt gysylltu a swyddfa'r Awdurdod.

Mrs Pamela Ainsworth

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn i'r Cyngor wneud yn siwr bod y cyflymder traffic yn aros yn 20 m.y.a trwy'r dref.

Mrs Anna Cole

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn datgan siom pan yn ymweld ar dref yn ddiweddar eu bod wedi derbyn ticed parcio yn maes parcio Min y Don er bod y ticed 'roeddynt wedi ei archebu yn dal o fewn amser a ddim wedi mynd drosodd ag yn datgan byddant yn falch o gael adborth y Cyngor ynglyn ar mater hwn. Dywedwyd gan yr Aelodau eu bod yn credu bod y peiriant talu ac arddangos dan sylw yn derbyn cardiau credyd ond byddent yn gwirio a oedd hyn yn gywir ac yn cynghori Mrs Cole i fynd â'r mater i fyny gyda Chyngor Gwynedd.

UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gobeithio y byddai pob Aelod yn cadw at y Cod Ymddygiad. Cytunwyd i roi mater meinciau cyhoeddus ar agenda'r mis nesa. Gwnaethpwyd yn hysbys bod cyfarfod o'r cynllun celf gyhoeddus ar ddydd Mercher 15fed Gwnaeth y Cyng. Reg Chapman rhoid gwybod ei fod wrthi'n llunio rhestr o eitemau i'w gosod ar agenda'r mis nesa.

Mrs Jane Jones

Trafodwyd y cais oedd wedi ei dderbyn gan yr uchod ar ddechrau'r cyfarfod a penderfynwyd rhoi cyfraniad i fyny hyd at £300 os yw y cais yn bodloni'r rheoliadau ariannol.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 788

COFNODION PWYLLGOR ARIANNOL CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWDYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.30 O'R GLOCH 08.01.24

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Thomas Mort, Huw Jones, Emma Howie a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

PRESENNOL

Cyng. Edwina Evans (Cadeirydd), Christopher Braithwaite (Is-Gadeirydd), Ceri Griffiths, Gordon Howie, Tegid John, Rhian Corps, Martin Hughes, Giles Bentham, Wendy Williams, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 7 aelod o'r cyhoedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ag i gael atebion ynglyn ar twyll a ddigwyddodd i'r Cyngor mis Rhagfyr 2022. Mae copi o'r cwestiynau a ofynwyd ynghyd ar atebion ynghlwm i'r cofnodion hyn.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Giles Bentham i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor a dymunodd y gorau iddo at y dyfodol. Fe arwyddwyd dogfen Datganiad Derbyn Swydd gan y Cyng. Bentham ar gychwyn y cyfarfod.

Adroddiad a dderbyniwyd gan yr Archwiliwr Allanol

Adroddodd y Cadeirydd bod angen trafod yr adroddiad a dderbyniwyd gan yr Archwiliwr Allanol ynglyn ar scam a ddigwyddodd i'r Cyngor yn mis Rhagfyr 2022. 'Roedd adroddiad wedi ei dderbyn gan yr Archwiliwr Allanol a oedd yn datgan oherwydd yr hyn oedd wedi digwydd bod angen i'r Cyngor fod yn mwy gofalus wrth wneud taliadau ar lein ac adroddwyd bod camau i wneud hyn yn fwy diogel wedi eu cymryd yn barod. 'Roedd y Cyngor yn cytuno hefo'r hyn oedd wedi ei nodi yn camau nesaf yr adroddiad sef a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau – a cytunodd yr Aelodau i ofyn am farn arbennigwr anibynnol i ymchwilio ar ran y Cyngor a chynghori ar gamau priodol, gan gynnwys cyfweld â'r bobl dan sylw'.

- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad i'w derbyn – a cytunodd yr Aelodau i dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion - trafododd yr Aelodau pa gamau i'w cymryd ag fe wneithwyd sylwadau ynghylch yr argymhellion o pwynt R1 i R5 ag hefyd eisiau datgan bod pwynt R4 a R5 heb ei cwblhau eto ond eu bod yn waith ar y gweill.

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Rhagfyr 4ydd 2023 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Gofynnodd y Cyng. Martin Hughes a'i ddim ond am y flwyddyn hon yn unig oedd y Cyngor wedi talu i Mr. Owen Brown i gynnal y wefan.

MATERION YN CODI

Panel Cyfrifiad Annibynnol

Adroddodd y Clerc bod yn rhaid arwyddo ffurflen gan bob Cynghorydd ynglyn ar uchod eto eleni. Mae angen rhestru bob rheol sydd yn cael ei mabwysiadu yn cofnodion y Cyngor ag os bydd rheol taliadau ar gyfer costau yn cael ei mabwysiadu bydd angen i'r Cynghorwyr sydd DDIM am hawlio costau arwyddo ffurflen yn datgan hyn. Ar ol trafodaeth cytunwyd i fabwysiadu y rheol taliadau ar gyfer costau eto eleni a cytunwyd bod pawb oedd eisiau hawlio costau yn gwneud hynny ond ei fod yn bwysig bod pawb yn ei anfon yn nol i'r Clerc ar ol ei cwblhau.

Cynllun Cyllideb

Dosbarthwyd copiau o'r uchod yn dangos y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud i fyny hyd at y 31ain o Ragfyr 2023 ers dechrau Ebrill 2023 a beth oedd wedi cael ei glustnodi yn y cynllun cyllideb hyd at diwedd mis Rhagfyr i bob aelod oedd yn bresennol. Adroddwyd bod £76,093.20 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael

1.....Cadeirydd

ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £3,301.94 o wariant yn fwy na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. Aeth yr aelodau drwy y gwahaniaethau yn y gwariant a oedd wedi cael ei wneud a beth oedd i lawr ar y cynllun cyllideb fesul un. Cytunwyd i dderbyn yr uchod.

Polisi Aseiad Risg Ariannol y Cyngor

Dosbarthwyd copiau o'r uchod i bob aelod a oedd yn bresennol a gafodd bob eitem a oedd arno ei drafod arwahan. Penderfynwyd derbyn y polisi hwn. Cytunwyd i ychwanegu y cwrt tennis i'r polisi hwn.

Prosiectau y Cyngor 2024/25

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid yr uchod ar yr agenda er mwyn cael rhyw syniad o brosiectau a fyddai angen sylw yn ystod y flwyddyn ariannol newydd ag hefyd er mwyn cynnwys amcangyfrif o'r gost yn y gyllideb a cytunwyd i restru y canlynol – cynnal a chadw y parciau chwarae a gosod ffens newydd a matiau £45,000, offer chwarae newydd £15,000, seddi £2,000, llochesi bws £7,000, goleuadau nadolig £6,000, cwrt tenis £2,500, rhandiroedd £3,000, llwybr natur £2,500, gwefan y Cyngor £1,500, Cyfeillion Ysgol Tanycastell £3,000, Cylch Meithrin Harlech £2,000, archebu tir Penygraig a chostau cyfreithiol £3,500, gardd gymunedol blodau gwyllt £500.

HAL

Adroddodd y Cyng. Martin Hughes ei fod wedi mynychu y cyfarfod rhwng Cyngorau Cymuned yr ardal yn neuadd bentref Llanbedr ar y 18ed o'r mis hwn ag 'roedd yr Is-Gadeirydd wedi ymddiheuro na fyddai yn gallu mynychu y cyfarfod hwn. 'Roedd trafodaeth wedi bod ynglyn a cario ymlaen i dalu cyfraniad ariannol i HAL ar ol diwedd mis Mawrth eleni a bod datganiad wedi cael ei greu a bod y Cyngorwyr wedi cytuno bod Clerc bob Cyngor yn anfon hon allan i bob Cyngorydd a gofyn iddynt bleidleiso erbyn nos Iau yr 21ain gyda'i penderfyniad, 'roedd yr e-bost a anfonwyd at bob Cyngorydd gyda chopi o'r datganid yn gyfrinachol a datganwyd bod Aelodau y Cyngorau eraill yn datgan siom bod y wybodaeth hon wedi cael ei datgelu i aelod o Fwrdd HAL ag oherwydd hyn eu bod o'r farn bod y Cyngorydd hwn wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon copiau o gyfrifon HAL i fyny at ddiwedd mis Tachwedd y llynedd i bob Aelod ac hefyd adroddodd bod cyfarfod arall yn mynd i gael ei gynnal rhwng Cyngorau Cymuned yr ardal yn neuadd bentref Llanbedr ar y 14eg o Chwefror ag hefyd bod cyfarfod rhwng y Cyngorau Cymuned a HAL yn cael ei gynnal ar y 18ed o'r mis hwn. Ar ol trafodaeth cytunwyd i gario ymlaen yn i dalu cyfraniad i HAL am y flwyddyn ariannol 2024/25.

Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2024/25

Dosbarthodd y Trysorydd gopiau o gyfrifon y Cyngor i fyny at y 31ain o Ragfyr 2023 i bob aelod er mwyn iddynt gael gweld beth oedd y sefyllfa ariannol. Fe gafwyd trafodaeth ynglyn ar mater uchod a penderfynwyd fod amcangyfrif o'r gwariant canlynol gan y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa - insiwrant y Cyngor £2,000, cyflog y Clerc £2,200, costau y Clerc £1,800, costau swyddfa £500, treth ar gyflog y Clerc £440, Cyfrifydd y Clerc £216, cyfraniadau £5,000, Hamdden Harlech ac Ardudwy £21,896.95, pwyllgor neuadd Goffa £2,000, pwyllgor Hen Lyfrgell £2,000, Cyfeillion Ysgol Tanycastell £3,000, Cylch Meithrin Harlech £2,000, costau fynwent £3,500, torri gwair y mynwentydd £2,000, torri gwair y llwybrau £2,500, torri gwair cae chwarae Brenin Sior £2,000, Llwybr Natur Bron y Graig £2,500, Dwr Cymru £900, biniau halen £400, goleuadau nadolig £6,000, meinciau £2,000, gwagio biniau caeau chwarae £1,000, cynnal a chadw y parciau chwarae £45,000, offer chwarae newydd £15,000, llochesi bws £7,000, cwrt tenis £2,500, archwiliad y parciau chwarae £324, cynnal a chadw toiled ger y Neuadd Goffa £8,000, cyfraniad i gadw toiledau cyhoeddus yn agored £10,000, Un Llais Cymru £350, llogi ystafell bwyllgor £250, gwefan y Cyngor £1,500, treth cwrt tennis £120, archwilwyr £3,000, gardd gymunedol blodau gwyllt £500, tir Penygraig £3,500, amrywiol £1,000, cynnal a chadw gwahanol eitemau £500, costau banc £150.

2.....Cadeirydd

Precept y Cyngor am y flwyddyn 2024/25

Fe dderbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn ar mater uchod. Ar ol trafod y gyllideb a rhagweld beth fyddai gwariant y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesa, penderfynwyd gadael y precept ar £70,000.

Cytunodd yr Aelodau i gadw mwy o arian wrth gefn er mwyn cael diogelu HAL os byddai rhai Cyngorau yn tynnu allan o'r cynllun precept ag hefyd bod ansicrwydd gyda costau yr Archwilwr Allanol yn enwedig am y flwyddyn ariannol diwethaf 2023/24 ag mentrau potensial Ardal Ni.

RHYBUDD O GYNNIG

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn Rhybudd o Gynnig gan y Cyng. Martin Hughes yn unol a Rheol Sefydlog 9 yn gofyn i Gyngor Cymuned Harlech gydnabod gwerth pwll nofio Harlech ar gyfer iechyd, diogelwch a lles pobl Harlech ac Ardudwy gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae'n ymrwymo i:

- a) Weithio gyda bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy i sicrhau dyfodol hir dymor y pwll nofio;
- b) Cyllid grant HAL ar y lefel gyfredol am 12 mis arall tan 31ain Mawrth 2025;
- c) Galw ar Gyngorau Cymuned eraill Ardudwy i gynnal eu cyllid ar y pryd ar y lefel bresennol am 12 mis arall tan 31ain Mawrth 2025.

Mae hefyd yn cynnig datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng HAL a'r Cyngorau Cymuned, er mwyn egluro'r berthynas rhyngddynt a lefelau'r gwasanaeth yn y dyfodol.'

Datganodd y Cyng. Martin Hughes ei fod yn tynnu y cynnig uchod yn nol oherwydd bod y Cyngor wedi cytuno i helpu HAL.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £5,664.47 yn y banc, £91,913.05 yn y cyfrif wrth gefn.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Cyllid a Thollad - £110.00 - treth ar gyflog y Clerc
Archwilio Cymru - £200.00 – archwiliad allanol 2020/21
Tindle Newspapers - £359.00 - rhybudd adroddiad archwiliad allanol
Un Llais Cymru - £38.00 - hyfforddiant Cyngorydd 6.12.23
Pwyllgor Hen Lyfrgell - £177.00 – llogi ystafell bwyllgor am y flwyddyn

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Cyllid a Thollad - £139.00 – ad-daliad T.A.W.
Cyllid a Thollad - £1,851.60 – ad-daliad T.A.W.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,750.00 – cynnig precept (taliad misol)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan, y Cyng. Gordon Howie a wnaeth y Cyng. Ceri Griffiths gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad l'r Clerc/Trysorydd l'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

MATERION A DRAFODWYD AR OL Y PWYLLGOR CYLLID

CEISIADAU CYNLLUNIO

Codi anedd ar wahân a garej driphlyg ar wahân gyda llety llawr cyntaf, ynghyd â draeniad, mynediad a thirlunio cysylltiedig – Tir l'r gogledd o Ystad Pencerrig, Ffordd Uchaf, Harlech (NP5/61/52E)

Cefnogi y cais hwn.

Codi estyniad ochr deulawr, estyniad cefn unllawr, a garej/storfa gardd ar wahân - 23 Ystad Castell Morfa, Harlech (NP5/61/660)

Cefnogi y cais hwn.

3.....Cadeirydd

GOHEBIAETH

Llywodraeth Cymru

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor mae y swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137 y Terfyn ar gyfer 2024/25 fydd £10.81 yr etholwr. Adroddodd y Clerc y rhif o diweddaraf o etholwyr sydd genni yw 1,140 ag felly mae gan y Cyngor hawl i gyfranu hyd at £12,323.40 i gyrff allanol.

Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn ymweld ar ardal rhwng y 15ed ar 19ed o'r mis hwn.

Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd ffordd Twtil yn cau ar yr 16eg o'r mis hwn er mwyn adfer polyn diffygiol a gweithgareddau ceblau ar ran BT Openreach.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 4.